NEWYDDION

# barcud

HAF 2024



## Neges gan
# Jason Jones
## Prif Weithredwr Grŵp



Rwy’n falch iawn o fod wedi dechrau ar fy swydd gyda Barcud tua diwedd mis Mai. Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, rwyf wedi bod wrthi’n brysur yn mynychu cyfarfodydd ac yn teithio ar hyd a lled y canolbarth i gwrdd â chydweithwyr newydd a sefydliadau sy’n bartneriaid i ni. Rwyf hefyd wedi llwyddo i ymweld â rhai ystadau a chynlluniau tai gwarchod. Byddaf yn mynychu digwyddiadau ‘Cwrdd â’r Tîm’ drwy gydol yr haf ac rwy’n edrych ymlaen at gwrdd â chymaint ag sy’n bosibl ohonoch yn ystod y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â’r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn y modd arferol os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar fy nghyfer.

# I Gysylltu â Barcud

### Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030
Pwyswch 1 am Gymraeg
Pwyswch 2 am Saesnag

### Drwy’r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

### Ar-Lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen ‘cysylltu â ni’ sydd ar ein gwefan

Barcud

@taibarcud

post@barcud.cymru
(ymholiadau cyffredinol)

consent@barcud.cymru
(unrhyw gwestiynau am gydsyniad)

# Cadwch y Dyddiad

## Cynhadledd i Denantiaid Barcud

MEDI 2024

## Dydd Mercher 18 Medi am 11am

**Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth**
**Coedlan y Parc, Aberystwyth,**
**Ceredigion SY23 1PG**

I gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Barcud ar

**0300 111 3030**

# Dyddiadau’r Fforwm Tai Gwarchod ar gyfer 2024

Mae’r Fforwm Tai Gwarchod yn agored i denantiaid Barcud sy’n byw yn unrhyw un o’r Cynlluniau Tai Gwarchod. Caiff ei gynnal ym Mhenrodyn, Aberaeron a chaiff cludiant ei ddarparu i’r lleoliad ac yn ôl adref. Beth am ddod i’r digwyddiadau cymdeithasol anffurfiol hyn, cwrdd â ffrindiau newydd a chymdeithasu mewn amgylchedd cartrefol?

I gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â’n Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0300 111 3030

### 19 Gorffennaf

Gweithgareddau gyda Mrs Valerie Jones
Canu gyda’r Cwm Cerwyn Duo

### 20 Medi

Robert Allen, Y GIG – Swyddog Allgymorth Datblygu Cymunedol
Canu gyda Claire Thomas, Goldies Cymru

### 15 Tachwedd

Gweithgareddau Nadoligaidd a Bwffe
Canu gan y gantores Kirilee

# Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Henffych, gyd-denantiaid.

Rydym yn gobeithio eich bod yn cadw'n dda a'ch bod yn gwneud yn fawr o'r tywydd cynhesach. Dydw i wir ddim yn gallu credu ein bod ni hanner ffordd drwy'r flwyddyn yn barod, a bod Cynhadledd i Denantiaid Barcud ar fin cael ei chynnal. I ble y mae'r amser yn mynd?

Mae'n braf gweld diddordeb cynyddol yn y Grŵp Monitro, ac mae'n bleser gen i groesawu'r ddau aelod diweddaraf sydd wedi ymuno â'r Grŵp, sef Margaret a Debbie. I ni, mae'n hanfodol bod gennym aelodau o drefi, pentrefi ac ystadau o bob cwr o'r ardal y mae Barcud yn gweithredu ynddi, gan fod hynny'n ein galluogi i fonitro gwasanaethau Barcud yn fwy eang.

Hoffem estyn croeso cynnes i Brif Weithredwr newydd Barcud, sef Jason Jones. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ag e' wrth iddo ddatblygu a chyflawni ei weledigaeth ar gyfer Barcud ac ar ein cyfer ni, y tenantiaid.



Ym mis Mawrth, gwnaethom gynnal ein Fforwm Cyswllt y Tenantiaid cyntaf ar gyfer eleni, a hynny yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth. Fel sy'n wir bob amser, roedd yn braf gweld wynebau newydd ac wynebau cyfarwydd. Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus yn y digwyddiadau hyn. Adeg ysgrifennu'r erthygl hon, rydym yn paratoi ar gyfer y digwyddiad nesaf, a gynhelir ymhen rhai wythnosau yn y Drenewydd, lle bydd Jason Jones yn ei gyflwyno ei hun ac yn siarad â thenantiaid. Mae Barcud yn sylweddoli nad yw tenantiaid sydd â diddordeb yn y digwyddiadau cyhoeddus hyn bob amser yn gallu eu mynychu am amryw resymau. Yn y dyfodol, bydd Barcud yn ceisio recordio'r cyflwyniadau a sicrhau eu bod ar gael i chi eu gwylio.



Ym mis Medi byddwn yn cynnal Cynhadledd i Denantiaid Barcud ar gyfer eleni, ac mae'r Grŵp Monitro wedi cytuno i sicrhau bod y digwyddiad yn un hollol ryngweithiol sy'n canolbwyntio arnoch chi. Bydd y gynhadledd yn debyg iawn i ddigwyddiad 'detio cyflym' lle bydd y Cyfarwyddwyr yn cael amser penodedig i siarad â phob bwrdd o denantiaid cyn eu bod yn gorfod symud ymlaen i'r bwrdd nesaf. Bydd gan bob un o'r Cyfarwyddwyr eu cwestiynau eu hunain, a gofynnir iddynt roi crynodeb o'ch ymatebion ar ddiwedd y sesiwn. Dyma eich cyfle chi i helpu i ffurfio dyfodol Barcud. Bydd Barcud yn hysbysebu'r digwyddiad yn ystod y misoedd nesaf. Cofiwch hefyd y gall Barcud helpu gyda chludiant a chostau cludiant.

Mae Cynnwys Tenantiaid yn un o gerrig sylfaen Barcud, ac un yn unig o'r ffyrdd niferus y gallwch gymryd rhan yn Barcud yw'r Grŵp Monitro. Os hoffech wybod mwy am y Grŵp Monitro neu am y ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan, mae croeso i chi gysylltu â Sue Thomas neu Alisa Cakebread ar 0300 111 3030.

Cadwch yn iach ac yn ddiogel, a gobeithio y gwelaf rai ohonoch yn ein digwyddiadau.

Paul Clasby (tenant),

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud

Grŵp Monitro barcud Monitoring Group

# Cystadleuaeth Lluniau o Erddi 2024

Cofiwch gymryd rhan er mwyn cael cyfle i ennill taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio.

Mae cael eich gardd i edrych yn bert yn golygu llawer o ymroddiad a gwaith caled, a byddem yn dwlu gweld eich gerddi hyfryd. Dyma ragrybudd, felly, er mwyn i chi allu dechrau cynllunio eich gwelyau blodau, eich potiau, eich basgedi crog a'ch gerddi llysiau arobryn. Dyw'r dyddiad cau ddim tan 16 Awst, felly does dim brys. Rydym yn gofyn i chi anfon eich lluniau atom eleni eto. Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd am dro o amgylch eich gardd gyda'ch camera a rhannu eich lluniau â ni. Gallwch anfon y lluniau atom drwy ebost, neu'u hargraffu a'u hanfon atom drwy'r post. Mae garddio'n wych i'ch iechyd a'ch lles. Mae gardd liwgar a diddorol nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth i'ch eiddo chi ond hefyd yn gallu bod o fudd i'r amgylchedd a'r gymuned yr ydych yn byw ynddi. Yn anffodus, dim ond pum ymgais a gawsom y llynedd yn y categori i rai dan 16 oed, sy'n nifer fach iawn, a hoffem weld beth y mae ein tenantiaid iau'n ei wneud yn eu gerddi.

Ydych chi wedi creu gwesty i bryfed?

Ydych chi wedi plannu rhai blodau gwyllt?

Ydych chi wedi darparu cartref diogel yn eich gardd i ddenu bywyd gwyllt?

Efallai eich bod hyd yn oed wedi tynnu rhai lluniau o'r bywyd gwyllt sy'n ymweld â'ch gardd! Anfonwch nhw atom; byddem wrth ein bodd yn eu gweld! Bydd enillydd pob categori'n cael taleb gwerth £50 i'w gwario mewn canolfan arddio. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn rhifyn yn y dyfodol o Newyddion Barcud.

Dyma'r categorïau:

1. ***Arddangosfa flodau orau (gardd breifat)***
2. ***Basged grog, llestr blodau neu flwch ffenestr gorau***
3. ***Gardd lysiau orau***
4. ***Arddangosfa flodau orau mewn llestr anarferol***
5. ***Nodwedd orau sy'n garedig i bryfed neu'r amgylchedd/ bywyd gwyllt mewn gardd (i rai dan 16 oed)***
6. ***Gardd orau mewn cynllun tai gwarchod***
7. ***Gardd gymunedol orau (nad yw mewn cynllun)***

Anfonwch lun o'ch ymgais chi, gan nodi'n glir rif y categori yr ydych am gystadlu ynddo, yn ogystal â'ch enw a'ch cyfeiriad yn llawn. At ddibenion dilysu, rhaid eich bod chi yn y llun gyda'ch ymgais. Mae'r telerau a'r amodau i'w gweld ar ein gwefan: barcud.cymru. Dylech anfon eich lluniau i'r cyfeiriad canlynol: Cystadleuaeth Arddio 2024 At sylw: Alisa Cakebread, Barcud, Tŷ Canol House, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL neu drwy ebost at Alisa.Cakebread@barcud.cymru Y dyddiad cau ar gyfer derbyn lluniau yw dydd Gwener 16 Awst 2024.

# Gweithio i Barcud



Hoffech chi weithio i Barcud? Mae gennym swyddi amrywiol ar draws pob adran – o rai ym maes adeiladu i rai mewn swyddfa. Ewch i'n gwefan i weld beth sydd ar gael gennym:

Ewch i https://www.barcud.cymru/recruitment/?lang=cy i weld pa swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd a sut y gallwch ddod yn rhan o'r tîm. Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

# Arolwg STAR

## Bydd yr arolwg yn eich cyrraedd drwy'r post yn fuan! Cofiwch ei lenwi a'i ddychwelyd er mwyn cael cyfle i ennill un o bedair taleb gwerth £100

Cyn bo hir, byddwch yn cael arolwg drwy'r post. Caiff yr Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr (Arolwg STAR) ei gynnal gan gwmni annibynnol. Bydd yn cael ei anfon at bob tenant, a bydd yn helpu Barcud i ddarganfod pa mor fodlon yw ein tenantiaid â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

**Enillwch £100**

Bydd y canlyniadau'n cael eu bwydo'n ôl i Barcud heb eich manylion personol, felly gallwch fod yn hyderus y byddant yn ddienw. Bydd Barcud yn cymharu'r canlyniadau hyn â chanlyniadau Arolwg STAR 2021.

Mae eich safbwyntiau'n bwysig iawn i ni. Maent yn gadael i ni wybod beth yr ydych yn ei feddwl, a byddwn yn defnyddio eich sylwadau i helpu i ffurfio a gwella'r gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu i chi yn y dyfodol.

Mae Barcud wedi ymrwymo i wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud. Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn ein helpu drwy lenwi'r arolwg pan fydd yn eich cyrraedd.

Fel rhywbeth ychwanegol i'ch cymell, bydd pob arolwg a ddychwelir yn cael bod yn rhan o gystadleuaeth rad ac am ddim i ennill gwobr, a bydd pedwar enillydd lwcus a ddewisir ar hap yn cael taleb gwerth £100.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi ffonio Sue Thomas, Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid, ar 0300 111 3030



# Cystadleuaeth i Blant – Ffotograff o Anifail Anwes

Cais i bob person ifanc sy'n hoffi anifeiliaid! Anfonwch ffotograff o'ch anifail anwes, ac fe allech chi ennill taleb gwerth £50 i'w gwario yn Pets at Home!

Bydd Prif Weithredwr newydd Barcud, Jason Jones, yn beirniadu'r ffotograffau a bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf o Newyddion Barcud.

Anfonwch eich ffotograffau, gan nodi eich enw, eich oed ac enw eich anifail anwes, erbyn 30 Medi 2024 fan bellaf i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Cyfathrebu Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Neu drwy ebost i: comms@barcud.cymru



# Anifeiliaid Anwes

Os hoffech gadw anifail anwes yn eich cartref, mae'n bwysig eich bod yn cael caniatâd ysgrifenedig gan Barcud. Mae hynny'n berthnasol i anifeiliaid anwes yr ydych yn eu cael am y tro cyntaf ac i anifeiliaid anwes yr ydych yn eu cael yn lle rhai blaenorol (rhai sydd wedi'u hailgartrefu neu rai sydd wedi marw).


Yna, gofynnir i chi lenwi a dychwelyd "Ffurflen Cais am Wybodaeth ynghylch Cadw Anifail Anwes". Ni ellir ystyried eich cais nes y byddwch wedi llenwi'r ffurflen ac y bydd Barcud wedi cael cadarnhad bod eich anifail anwes wedi'i gofrestru gyda milfeddygfa leol.

Os byddwch yn cadw anifeiliaid anwes heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Barcud, mae'n bosibl y bydd camau gorfodi'n cael eu cymryd yn eich erbyn, a allai gynnwys gorfod ailgartrefu'r anifail anwes os na ellir rhoi caniatâd ôl-weithredol i chi.

Os caiff cais ei wrthod, gallwch ofyn am i'r penderfyniad gael ei adolygu. Rhaid i apêl o'r fath gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth, cyn pen 14 diwrnod i ddyddiad llythyr y penderfyniad, gan nodi'r rhesymau dros yr apêl.

# Pethau i'w hystyried cyn i chi farw

**Ychydig ohonom sy'n hoffi meddwl am farw, ond gall sicrhau bod gennych gynllun wneud pethau'n haws i chi, eich teulu a'ch ffrindiau. Os ydych am sicrhau bod eich dymuniadau'n hysbys, mae'n bwysig eich bod yn ystyried y canlynol:**




**Gwneud ewyllys** – mae hynny'n eich galluogi i ddweud beth yr hoffech ei weld yn digwydd i'ch eiddo ac i unrhyw arian sydd gennych, ar ôl i chi farw. Gallwch hefyd gynnwys trefniadau eich angladd ac unrhyw ddymuniadau eraill sydd gennych.



**Eich angladd** – mae gwahanol fathau o angladdau i'w cael, ond mae angen i chi feddwl pa fath o angladd yr ydych chi am ei gael, a ydych am gael eich claddu neu'ch amlosgi, ac os ydych am gael eich amlosgi ble yr hoffech i'ch llwch gael ei wasgaru neu'i gladdu. Os na wnewch chi nodi hynny'n ysgrifenedig, neu'i gynnwys mewn ewyllys, mae'n bosibl na fydd eich teulu a'ch ffrindiau yn gwybod.



**Rhoi organau** – dyma drafodaeth bwysig y mae angen i chi ei chael gyda'ch anwyliaid.



**Cyfryngau cymdeithasol** – efallai y byddwch am gael cynllun ar gyfer eich cyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n bosibl y byddwch am eu dileu'n gyfan gwbl neu y byddwch am i rywun lunio neges ar eich rhan. Dyma rywbeth arall i'w rannu â'r sawl sydd agosaf atoch. Ar Facebook, gallwch ddewis 'unigolyn cyswllt etifeddol' a allai ofalu am eich cyfrif ar ôl i chi farw, neu ofyn am i'ch cyfrif gael ei ddileu pan fydd rhywun yn cadarnhau eich bod wedi marw.



**Cynlluniau** – ystyriwch drafod eich cynlluniau i gyd â'r sawl sy'n agos atoch a rhowch gyfle iddynt helpu gyda'ch penderfyniadau, yn enwedig os nhw fydd yn gyfrifol am wireddu eich dymuniadau.

Os oes gennych ddogfennau pwysig neu nodiadau am eich gofal, eich etifeddiaeth neu'ch angladd, cadwch nhw mewn lle diogel a rhowch wybod i'ch anwyliaid ble y maent. Mae'n bosibl hefyd y byddwch am gadw eich manylion banc, gwybodaeth am gyfleustodau ac ati mewn lle diogel, y mae eich anwyliaid yn gwybod amdano. Os yw'n anodd cael gafael ar y dogfennau, mae'n bosibl na fydd eich dymuniadau'n cael eu gwireddu.

**Dyma rai yn unig o'r pethau y gallai fod angen i chi eu hystyried. Os na ddywedwch chi beth yr hoffech ei weld yn digwydd, mae'n bosibl na fydd eich teulu a'ch ffrindiau yn gwybod beth yw eich dymuniadau.**

# Y Diweddaraf am Bryfed

Wrth gloddio pridd i godi tai newydd neu adnewyddu gerddi, gall pryfed megis y Pryf Teiliwr (Crane-fly) neu'r Corryn Heglog (Daddy-long-legs) ffynnu.

Y Pryf Teiliwr neu'r Corryn Heglog yw'r oedolyn, a'r Cynrhonyn Lledr (Leather-jacket) yw'r larfa.

Er bod y pryfed hyn yn ffynhonnell o fwyd i fywyd gwyllt lleol, maent hefyd yn gallu achosi trafferth. Gallant ddifrodi lawntiau sydd newydd gael eu gosod, gan arwain at ddarnau brown o laswellt a darnau moel o bridd, hyd yn oed, ar eich lawnt a oedd unwaith yn berffaith.

Er nad yw'n bosibl atal y plâu hyn, mae'n bwysig ein bod yn gallu adnabod y pryfed. Mae'n werth nodi nad yw Barcud yn gyfrifol am ymdrin â'r mater hwn yn rhan o'ch contract.

Byddwn yn cynhyrchu taflen am hyn yn y dyfodol agos. Bydd hwn ar gael arlein a gellir derbyn copi ar bapur drwy gysylltu â gwasanaethau cwsmeriaid.



Cynrhonyn Lledr



Pryf Teiliwr

# Y Diweddaraf am Hyfforddiant a Datblygiad

Yng Ngrŵp Barcud, rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein hymrwymiad i ddatblygiad a hyfforddiant. Drwy sicrhau bod ein staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am ddatblygiadau yn y diwydiant, rydym yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaeth gorau i chi, ein tenantiaid.

***Hyfforddiant seiliedig ar waith:***

Mae buddsoddi mewn hyfforddiant seiliedig ar waith yn hanfodol. Yn ogystal â chynorthwyo ein staff i hybu eu gyrfaoedd, mae hefyd yn gwella ansawdd y gwasanaeth yr ydych chi'n ei gael. Yn ddiweddar, cwblhaodd aelodau o'n tîm Medra gwrs Rheoli'n Ddiogel y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH), a llwyddodd cydweithwyr o EOM i ennill Tystysgrif Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol y Bwrdd Arholi Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (NEBOSH).

***Llwyddiannau ym maes hyfforddiant arbenigol:***

Jolyon Harris o EOM: Cwblhaodd y cwrs Gosod Systemau Gwres o'r Aer.

Bryn Evans: Enillodd ei gymhwyster mewn Gosod Drysau Tân, yn dilyn asesiad ymarferol.

***Diogelwch yn Gyntaf:***

Mae timau Medra ac EOM wedi cwblhau eu cwrs Ymwybyddiaeth o Asbestos yn ddiweddar. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn mewn hyfforddiant i gydweithwyr yn sicrhau bod ein staff yn gymwys dros ben, sy'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i'ch cadw chi'n ddiogel yn eich cartrefi.

Mae'r cerrig milltir hyn o ran hyfforddiant nid yn unig yn adlewyrchu ein hymroddiad i dwf proffesiynol ond hefyd yn dangos ein hymdrechion parhaus i sicrhau'r safonau uchaf o ran diogelwch a gwasanaeth i chi. Mae gwella'n barhaus wrth wraidd popeth a wnawn.

# Cyhoeddi Canlyniadau Arolwg o Foddhad Cwsmeriaid

Mae Barcud wedi llwyddo i gael canlyniadau ardderchog yn arolwg diweddaraf Llywodraeth Cymru, sef Landlordiaid Cymdeithasol: Arolwg Boddhad Tenantiaid 2024, a gyhoeddwyd ar 21 Mehefin 2024. Mae'r arolwg hwn yn adlewyrchu barn tenantiaid am eu cymdeithas dai a'u cartrefi cymdeithasol, ac mae ein perfformiad gwych ni yn brawf o ymroddiad, gwaith caled ac ymrwymiad pawb yn Barcud.

Os hoffech ddarllen yr adroddiad cyfan, ewch i: bit.ly/3W5cf1w

Ymhlith y 3 uchaf mewn 5 allan o 12 cwestiwn

Y canlyniad gorau 94%

Diolch i'n tenantiaid a ymatebodd i'r arolwg hwn. Byddwn yn cymryd y canlyniadau ac yn adeiladu arnynt ar gyfer y dyfodol.

## Grant Hanfodion Ysgol

Oeddech chi'n gwybod bod grantiau ar gael i blant y mae eu teuluoedd ar incwm isel ac sy'n gymwys i gael rhai budd-daliadau?

Mae pob plentyn o oed dosbarth derbyn i flwyddyn 11 yn gymwys yn awr.

Swm y grant yw £125 i bob dysgwr, a £200 i blant sy'n dechrau ym mlwyddyn 7.

Mae'r manylion llawn i'w gweld yma: www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol

# Gwnaethoch chi ddweud a gwnaethom ni wrando.

Yn Fforwm Cyswllt y Tenantiaid a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar, cawsom wybod y byddai tenantiaid yn hoffi dysgu mwy am y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng tenantiaid a Barcud. I ymateb i'r cais hwnnw, dyma'r mathau o alwadau a gawsom rhwng mis Mawrth a mis Mai 2024.

Ym mhob rhifyn o Newyddion Barcud o nawr ymlaen, byddwn yn darparu cipluniau o wybodaeth sy'n ymwneud â thenantiaid. Rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo eu bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, a chofiwch roi gwybod os oes unrhyw beth yr hoffech i ni roi sylw iddo yn Newyddion Barcud yn y dyfodol.



## Y galwadau a gafwyd rhwng Mawrth a Mai 2024

| Categori | Galwadau | Canran |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw | 7098 | 42.95% |
| Tai | 5986 | 36.22% |
| Cymorth - Cynnal | 2370 | 14.34% |
| Cyffredinol | 734 | 4.44% |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 271 | 1.64% |
| Cwynion | 57 | 0.34% |
| Eiddo Gwag | 9 | 0.05% |

# Gardd Bywyd Gwyllt Gymunedol Gungrog – Y Trallwng

Cafodd Gardd Bywyd Gwyllt Gymunedol Gungrog ei lansio'n swyddogol ar 31 Mai mewn digwyddiad i deuluoedd a phreswylwyr lleol, a oedd yn cynnwys gweithgareddau megis adnabod pryfed a chreu bomiau o hadau blodau gwyllt. Bu Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn yn gweithio mewn partneriaeth â Barcud i droi darn o dir ar ddatblygiad tai Clos Gungrog, Gallowstree Bank yn ardd bywyd gwyllt. Mae'r ardd yn cynnwys nodweddion megis gwelyau uchel, pyllau a gardd berlysiau y gall preswylwyr yr ystâd eu mwynhau a gofalu amdanynt.

Cafodd yr ardd gymunedol newydd ei chanmol gan un o'r tenantiaid a ddaeth draw, ac meddai: "Does gen i ddim golygfa o fy ngardd i, felly mae dod allan yma i eistedd a mwynhau gweld y gamlas, ei bywyd gwyllt a'r bryniau cyfagos yn gwneud i fi deimlo fy mod ar wyliau yn fy nghymdogaeth fy hun!"

Mae'r ardd gyfeillgar i fywyd gwyllt wedi'i datblygu gan Carla Evans, Pennaeth Pobl a Bywyd Gwyllt Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, ac Andy Davies, Swyddog Cadwraeth Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, gyda chymorth tîm Sgiliau Gwyllt Mannau Gwyllt yr Ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr lleol.

Meddai Geraint Roberts, Uwch Swyddog Datblygu Barcud:
"Rydym wrth ein bodd â chanlyniad y prosiect hwn. Mae'r ardd orffenedig yn cynnig lle dymunol i breswylwyr o bob oed gyfarfod, treulio amser, a dysgu am y bywyd gwyllt sydd o'u hamgylch. Mae'n gaffaeliad gwirioneddol i breswylwyr cyfagos ac i'r gymuned ehangach, ac rydym yn gobeithio y bydd yn cael defnydd da am flynyddoedd i ddod."








## Digwyddiadau Cwrdd â'r Tîm




Yn ystod misoedd yr haf, rydym wedi bod yn cynnal digwyddiadau "Cwrdd â'r Tîm" mewn amryw leoliadau ar draws Powys a Cheredigion. Roedd staff ar gael ym mhob digwyddiad i bobl sgwrsio â nhw, o'r Timau Tai, Cynnal a Chadw a Chynnwys Tenantiaid, ac roedd aelodau'r Tîm Arwain yn bresennol hefyd. Rydym wedi bod i wyth o wahanol leoliadau hyd yn hyn, a hoffem ddiolch i'r tenantiaid a ddaeth draw i ddweud helô a chael sgwrs. Roedd yn braf iawn eich gweld. Roedd yr adborth a gafwyd gan y tenantiaid yn dangos eu bod o'r farn bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol, yn enwedig gan eu bod ar stepen eu drws. Os hoffech i ni gynnal digwyddiad "Cwrdd â'r Tîm" ar eich ystâd chi, mae croeso i chi gysylltu – anfonwch ebost i post@barcud.cymru neu ffoniwch 0300 111 3030.

# Cyfrifiadur yn y Lolfa Gyffredin – Bodlondeb

Ar ôl ymgynghori â'r preswylwyr yn un o'n cynlluniau tai gwarchod, aethom ati'n ddiweddar i osod cyfrifiadur yn y lolfa gyffredin ym Modlondeb, Llanidloes. Bydd y preswylwyr yn cael hyfforddiant gyda Cymunedau Digidol Cymru, a gyflwynir gan Cwmpas sydd, yn rhan o brosiect, am hybu lefelau cynhwysiant digidol ym Mhowys. Rydym yn gobeithio y bydd darparu mynediad i'r cyfrifiadur yn y lolfa gyffredin a darparu'r hyfforddiant hwn yn helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal preswylwyr rhag mynd ar-lein, drwy gynnig ystod o gyfleoedd dysgu i wella eu sgiliau a'u galluogi i ddeall manteision bod yn rhan o'r byd digidol.



## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

### Symleiddio contractau

Erbyn hyn, dylech fod wedi cael eich Hysbysiad Rhagarweiniol gan Barcud, sy'n amlinellu'r newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'ch contract ac sy'n eich gwahodd i roi adborth.

Byddwn yn ystyried eich sylwadau, ac yna'n rhoi Hysbysiad Amrywio a fydd yn dod i rym cyn pen mis.

Os hoffech drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â'ch Swyddog Tai Ardal.



# Cefnogwch Eich Cymuned

## A fedrwch chi fod yn Wirfoddolwr Cymorth Cymunedol

Os oes gennych amser i'w sbario, rhowch help llaw i berson hyn yn eich ardal er mwyn eu cadw'n heini a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr yn eich ardal chi.

## Defnyddio eich sgiliau a'ch gwybodaeth leol i gynorthwyo eraill

Mae'r Prosiect Cymorth Cymunedol yn darparu cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol i bobl hyn er mwyn iddynt fedru cymryd rhan yn eu cymuned, a datblygu eu cysylltiadau a'r gymuned.

Bydd Partneriaeth Age Cymru yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus. Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb e-bostiwch:

**CAPvolunteer@agecymru.org.uk**

neu ffoniwch:

**07425 422 270**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Partneriaeth age Cymru

Mae Age Cymru yn Elusen gofrestredig rhif 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi cael ei gofrestru yng Nghymru ac yn Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw'r Llawr Gwaelod, Ty Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 STD. © Age Cymru 2024